Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau.penweddig@ceredigion.gov.uk

ATHRO/ATHRAWES BUSNES & MENTER
(cyfnod mamolaeth)
(Graddfa Gyflog Athro Cymwysedig: £22,917 - £38,633)

Mae'r ysgol yn chwilio am berson egnïol a deinamig i lenwi'r swydd uchod dros gyfnod mamolaeth. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd hon addysgu'r pwnc hyd at Safon Uwch.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus chwarae rhan weithredol i hyrwyddo nodau ac amcanion yr ysgol ac yn arbennig felly ei hymdrechion i gryfhau Cymreictod y gymuned ysgol.

Mae'r swydd hon yn rhan o'r Gyfadran Iechyd, Chwaraeon a Mentergarwch.

Addysgir pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg ar wahan i Fathemateg a Gwyddoniaeth a addysgir yn ddwyieithog.

Disgwyliadau

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cwrdd â holl ddisgwyliadau y safonau cenedlaethol ar gyfer athrawon wrth eu gwaith.

Y cyd-destun ysgol

Gellir cael mwy o wybodaeth am yr ysgol, ynghyd â chopi o'r prosbectws ac adroddiad yr arolwg diwethaf oddi ar ein gwefan, www.penweddig.ceredigion.sch.uk.

Rhydd y swydd hon gyfle arbennig i berson sy'n meddu ar y weledigaeth a'r egni i'w gwireddu i wneud cyfraniad arbennig i addysg pobl ifanc gan gyfrannu at lwyddiant pellach yr ysgol.

Yr adnoddau

Prif adnodd pob ysgol yw ei disgyblion a'i staff.

Ym Mhenweddig mae yna ddisgyblion talentog a dawnus ar draws yr ystod oed a gallu.

Mae gan yr ysgol dîm da o staff dysgu a staff atodol. Mae prosesau ar waith i rymuso gallu'r tîm hwn i ddatblygu ymhellach, i adeiladau ar gryfderau a llwyddiannau presennol yr ysgol ac i ymestyn at safonau uwch.

Yr Adeilad a'r Cyfleusterau

Mae'r holl ysgol ar y rhwydwaith cyfrifiadurol. Mae'r rhwydwaith yn un rymus gyda mynediad parhaus i'r we. Mae yna socedau i'r rhwydwaith mewn pob ystafell. Yn ganolog, mae yna bedair ystafell gyfrifiadurol fawr a chanolfan adnoddau aml gyfrwng, dda.

Y Ddarpariaeth Gwricwlaidd Bresennol

Gweithreda'r ysgol ar amserlen o 60 gwers y pythefnos.

Addysgir Astudiaethau Busnes fel pwnc dewisol TGAU yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yna i Safon Uwch Atodol a Safon Uwch yn y chweched dosbarth.

O fewn yr amserlen caiff y dosbarthiadau TGAU 6 gwers y pythefnos. Yn sgil poblogrwydd y pwnc mae yna ddau ddosbarth ym mlwyddyn 10 ac un ym mlwyddyn 11. Caiff dosbarthiadau Astudiaeth Busnes UG a Safon Uwch 8 gwers yr un.

Darperir hefyd 8 gwers y pythefnos ar gyfer gwaith tiwtor i'r Fagloriaeth Gymreig i flwyddyn 13.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus gyfrannu at syniadaeth yr ysgol i gwrdd â heriau newydd yn llwyddiannus, hyderus a chyda dychymyg i wireddu gwerthoedd creiddiol yr ysgol a'i dyhead i ddarparu'r addysg orau i'w disgyblion.

Gwneud cais am y swydd

Mae modd gwneud cais am y swydd hon naill ai drwy:

- Cysylltu yn uniongyrchol â'r ysgol am becyn swydd (ffôn: 01970 639499; e-bost: ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk); neu
- lawr lwytho copi pdf o'r ffurflen gais oddi ar wefan yr ysgol neu e-teach
- gwblhau'r ffurflen gais electroneg oddi ar wefan Cyngor Sir Ceredigion https://recruitment.ceredigion.gov.uk/tlive_webrecruitment/wrd/run/ETREC105GF.open?WVID=197937138C&LANG=cym

Cyfweld

Bwriedir cynnal y cyfweliadau rhywbryd yn ystod yr wythnos 11 – 15 Rhagfyr 2017.

Dyddiad cau: 30 Tachwedd 2017

Ysgol Gyfun Gymunedol Penweddig Ffordd Llanbadarn Llangawsai Aberystwyth SY23 3QN
T (01970) 639499 **F** (01970) 626641 **E** ymholiadau.penweddig@ceredigion.gov.uk

CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL
ASTUDIAETHAU BUSNES

SAFON UWCH

Blwyddyn	A*	A	B	C	D	E	U
2016	1	0	0	3	2	0	1
2017	0	0	3	2	5	3	0

SAFON UWCH ATODOL (AS)

Blwyddyn	A	B	C	D	E	U
2016	0	0	0	0	1	0
2017	0	0	0	1	0	0

TGAU

Blwyddyn	A*	A	B	C	D	E	F	G	U
2016	0	2	2	0	0	0	1	0	0
2017	2	6	12	5	3	0	0	0	0